


Eistedfod y Cymoedd



19^{eg} o Hydref 2018

Dechrau am 4:00
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Campws y Gwyndy, Caerffili

Dyddiad Cau Cofrestru i Gystadlu
a danfon y gwaith Llenyddol a Ffotograffiaeth

Dydd Llun - 8^{fed} o Hydref

Rhaid Cofrestru Eleni AR LEIN

www.eisteddfodycymoedd.cymru



Eisteddfod y Cymoedd



@eistycymoedd

Dewch i ymuno yn yr hwyl..... dawnsio, canu, llefaru, llenyddu, barddoni, ffotograffiaeth.... mewn Noson Gymdeithasol gyda BAR!

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis



*Ariennir yn
rhanndol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn Jenni Jones-Annettes

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gwefan: menter.aerffili.cymru/



e-bost: Golygydd@papurcwmini.cymru

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

DEDDF NEWYDD PREIFATRIFYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyfch sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/



Oedfaon Capeli Cymraeg Mis Hydref

Bedyddwyr Tonyfelin

7fed 10.30 a 6.00 Y Parch Milton Jenkins
14eg 10.30 a 6.00 Cyfarfodydd Diolchgarwch
21ain 10.30 a 6.00 Ym Methel
28ain 10.30 Oedfa yng nghwmni Eglwys Koreaid gogledd Caerdydd
6.00 I'w drefnu

Penuel, Rhymni

Y Parch Tudor Jones
Rev. Richard Grey
Mr Ray Lewis
Y Parch Evan Morgan

Annibynwyr, Bethel

7fed 10.30. Y Parchg. Dr. R Alun Evans (Cymun)
14eg 10.30 a 6.00 Parchg. Maldwyn Jones
21ain 10.30 a 6.00. Parchg. Robert Owen Griffith (Cynhaeaf)
28ain 10.30 a 6.00. Gyda Tonyfelin.

Capel y Groeswen

14eg O Hydref
3.00 y.p.
Mr Vaughan Roderick
HARVEST SERVICE

“Tipiadau”

Cyfrol o farddoniaeth y Dr Llion Pryderi Roberts



Pan ddaw hi'n amser i mi sgwennu fy atgofion am y genedlaethol eleni mi fyddaf yn cofio dau beth am Llion Pryderi. Yn gynta, ataliodd y

wobr yng nghystadleuaeth y delyneg, “Heddwch” - y tro cyntaf i hynny ddigwydd y ganrif hon. Fe ddigwyddodd naw gwaith yn yr hen ganrif, y tro diwethaf yn Y Bala 1997. Yn ail, y sgwrs a gawsom yn uned y Cyngor Llyfrau ar y maes ym Mae Caerdydd. Ar gyfer y Genedlaethol cyhoeddwyd nifer o gyfrolau barddoniaeth gan feirdd cydnabyddedig e.e. “Rhwng Pladur a Blaguryn” gan Tony Bianchi; “Twt Lol” gan Emyr Lewis a “Tipiadau” gan Llion Pryderi Roberts - ei gyfrol gyntaf.

Yn y Genedlaethol, Casnewydd a'r Cylch 2004 y dechreuodd fel ymrysonwr i dim Ymryson Beirdd Morgannwg a bu wrthi am nifer o flynyddoedd. Hirach fu ei dymor gyda thîm Aber Hafren ar Dalwrn y Beirdd. Ef enillodd y Gadair yn Eisteddfod Môn, Aberffraw a'r Cylch 2003 am gasgliad o wyth cerdd ar y testun “Llanw a Thrai”. “Rydym yng nghwmni bardd y mae ei afael ar ei ddeunydd yn gwbl gadarn ac un sydd yn amlwg yn fawr ei ofal dros ei waith,” sylwodd Y Prifardd Llion Jones, y beirniad. Pan gynhaliwyd yr eisteddfod ym Mro Paradwys yn 2016 enillodd Llion Pryderi ei ail Gadair ym Môn. Enillodd am gasgliad o gerddi ar y testun “Paradwys”. Canmolwyd y casgliad gan y ddau feirniad, Derec Llwyd Morgan ac Ifor ap Glyn. Ymysg y chwe cherdd, detholiad o'r casgliad buddugol a gyhoeddwyd yng nghyfansoddiadau'r eisteddfod, ceir pedair ohonynt yn y gyfrol, “Tipiadau”, “Rhyddid”, “Hwiangerddi”, “Trip” a “Pont”.

Cyfrol i'w chroesawu yw “Tipiadau”, cyfrol yn portreadu profiadau hogyn ym Mrynsiencyn; darlithydd yng Nghaerdydd a thad yn Nelson. Bardd galluog, hynod o grefftus sy'n gallu rhoi enaid yn ei gerddi, rhai ohonynt yn afaelgar. Nid yn unig cofnodi mewn telyneg o gynghanedd mewn ambell i gerdd ei brofiadau ei hunan y mae, ond profiadau ei holl ddarllenwyr. Dyna pam nad cyfrol fyfyrion ydy “Tipiadau”. Mae'r gerdd benrhydd “Gweddi” Mehefin 1995 ac “Ellers”, cerdd mewn mydr ac odl, hoff emyn ei fam, yn mynegi profiad cyffredin. Onid dyna gryfder bardd o'r iawn ryw, mynegi mewn geiriau byw yr hyn y mae ei ddarllenlydd wedi ei brofi yn ddirdynol?

Dywedodd Derec Llwyd Morgan bod Llion Pryderi yn ysgolor llenyddiaeth ac yn defnyddio ei wybodaeth i gryfhau ei gerddi. Rwy'n cymryd mai Capel Horeb (P) ym Mryn Siencyn ydy cefndir ei soned “Ymarfer”.

..... fe wyddai'r cloc
yn iawn na allai ffoi na thorri'n rhydd
rhag siant y pendil mawr o flaen y cloc,
a'i farn sy'n dal yn sigl ynof i
Rhys Lewis, nid Wil Bryan, ydwyd ti.

Dyma'r eilwaith eleni i Gapel Horeb neu Capel Mawr fel yr oedd yn cael ei alw yn Y Bryn gael ei grybwyll mewn cyfrol. Mae soned Llion ac Atgofion Margaret Williams, y gantores i mi yn erlid cysgod Y Parch John Williams, y pregethwr rhyfel, oddi ar y lle.

Yn ei gerdd “Marwnad” mae'n portreadu ei brofiad fel darlithydd yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Ydy, mae geiriau yn gallu bod yn styfnig iawn ar brydiau mewn nifer o gerddi. Mae balchder tad i'w synhwyro rhwng llinellau ei gerddi i'w hogia Joseff a Bedwyr. Byddaf eto yn darllen “17:ii:13 i Joseff” a “8:iv:15” i Bedwyr” i gael mwy o'r ddwy gerdd. Yr un modd gyda “Duws” ac “Amser Stori”.

Mae ddos y bardd, ei heddiw a'i yfory yn y gyfrol hon. Cyfrol sy'n gyfraniad nodedig i draddodiad llenyddol ein bro, traddodiad sy'n dyddio yn ôl i'r ddegfed ganrif i ddyddiau Armes Prydain, Gelligaer.

Dafydd Islwyn

Y Cylchdro o Uffern!!!!



Un peth da – yr unig beth da – i godi o'r anhrefn llwyr a ddaeth i ran trafnidiaeth yng Nghaerffili a Chwm Rhymni yw'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i gylchdro Pwllypant. Ie, "Cylchdro Pwllypant", NID cylchdro Corbetts neu chwaith y Cedar Tree. Braff gweld cofio enw Pwllypant, hen bentrefan a fu mewn bodolaeth flynyddoedd cyn Llanbradach a sawl cymuned arall yn yr ardal hon.

Ond prin yw'r cysur a geir o ddioddef yr anhrefn a fydd wedi parhau am flwyddyn neu fwy cyn y cawn fwynhau'r buddiannau a fydd yn deillio o'r gwelliannau. A fydd hyn yn werth yr anghyfleuster i gymaint o bobol a busnesau, ac, efallai, yn fwy na hynny, y gost aruthrol sydd wedi codi o £5.5 miliwn i £6.5 miliwn ers dechrau ar y gwaith?

A'r cwestiwn mwyaf i gyd yw: a oedd angen y newidiadau o gwbl?

Ie, a oedden nhw'n gwbl angenrheidiol o gofio na wneir defnydd llawn o'r rheilffordd sy'n pasio o fewn taflad carreg i holl gyffro'r cylchdro?

Yn nyddiau llywodraeth John Major, yn ystod nawdegau'r ganrif o'r blaen, penderfynwyd preifateiddio'r rheilffyrdd.

Yr addewid oedd y byddai hyn yn denu chwestrelliad o arian i ddiwydiant sydd wedi dioddef diffyg buddsoddi ers degawdau.

Preifateiddwyd trenau yn amryw rannau'r Deyrnas Gyfunol i ddarnau a fyddai'n ddeniadol i wŷr busnes, megis Richard Branson, gan osod y traciau ar wahan dan y penawd "Railtrack".


Wedi preifateiddio "Railtrack", buan y gwelwyd nad oedd elw i'w wneud a bu'n rhaid ail-wladoli'r rheilffyrdd – ond nid y trenau - gan fedyddio'r creadur newydd yn "Network Rail".

Roedd deddf diwygio llywodraeth leol 1973 wedi rhoi pwyslais priodol ar gydlyn trafnidiaeth – yn rheilffyrdd, bysiau, adeiladu ffyrdd ac ati. A does dim gwell esiampl o ffrwyth y deddfu hyn na gorsaf Caerffili, lle mae'r bysiau a'r trenau yn dod at ei gilydd ochr yn ochr.

Ond yn eu doethineb roedd llywodraeth y 90au wedi rhannu'r trenau oddi wrth y rheilffyrdd ac oddi wrth bob dull arall o deithio!

I ddarlunio'r diffyg cydlyniant, aeth "Network Rail" ati i ymestyn pob platfform ar y rheilffordd o Rymni i Gaerdydd fel eu bod yn gallu derbyn trenau pum cerbyd. Roedd hynny 12 i 15 mlynedd yn ôl. Ond does neb wedi dweud wrth Drenau ARRIVA Cymru! Ac, felly, ni

welwyd yr un trê'n pum cerbyd yn y cwm hyd yn hyn.



Y Cylchdro o Uffern (parhad)

Dywedir mai'r gost o brynu cerbydau ychwanegol oedd £150,000 yr un. Cost sylweddol ond, ar y llaw arall, mae dros 60 o seddi ym mhob cerbyd yn ogystal â mannau i deithwyr sefyll. Byddai 10 cerbyd felly yn costio miliwn a hanner o bunnau. Oni fyddai hynny wedi bod yn rhatach ac yn well buddsoddiad na'r £6.5 miliwn sy'n cael ei wastraffu ym Mhwllpant ar hyn o bryd?

Ond beth am brynu un neu ddau o gerbydau arall fel bod pob trê yn ystod rhuthr y bore a diwedd y prynhawn yn gallu cario hyd at 500 o deithwyr rhwng Rhymni a Chaerdydd? A beth am wario ychydig mwy o'r arian, arian y gellid fod wedi ei arbed, drwy ehangu darpariaeth Parcio a Theithio yn y cwm?

A hyd yn oed gynnig cymorthdaliadau i leihau costau'r tocynnau, sydd y tu hwnt o ddrud, fel bod y gost o deithio lawer iawn yn is? Byddai hyn yn denu teithwyr allan o'u ceir drwy gynnig cymhelliant iddynt deithio ar y trenau. "Gadewch i'r trê wneud y gyrru" felly. Petai hyn yn digwydd byddai'n fodd o leddfu'r tagfeydd traffig sydd wedi dod cymaint yn rhan o fywyd Caerffili y blynnyddoedd diwethaf hyn.

Mae ARRIVA bellach wedi colli'r cytundeb i redeg trenau'r cymoedd ond oes gwell yn ein disgwyl? Ac mae tipyn o sôn wedi bod am drydaneiddio'r rheilffyrdd. A deallwn, hefyd, y bydd bysiau trydan yn dod i ardal tref Caerffili yn ystod y blynnyddoedd nesaf ar gost o £48 miliwn yn ôl y Western Mail (10/09/18).

Ond oni ellid, gydag owns o synnwyr cyffredin, leddfu'r anawsterau teithio am lawer lai o gost?

“Dosbarth Wyn”

Rhyw bedwar deg pump o flynyddoedd yn ôl daeth y Parchedig Jacob Davies i annerch Cymdeithas Gymraeg Caerffili. Yn bresennol y noson honno oedd Meredydd Evans, sy'n fwy adnabyddus efallai fel “Merêd”. Roedd e newydd ymgymryd â swydd gydag Adran Efrydau Allanol y brifysgol ac o brofi'r brwdfrydedd yng Nghaerffili y noson honno aeth ati i sefydlu dosbarth llenyddol yn y dref. Mae'r dosbarth hwnnw yn dal i gyfarfod!



W.J. Jones, darlithydd yn y Gymraeg yng ngholeg hyfforddi athrawon yng Nghaerdydd oedd y tiwtor cyntaf a chynhaliwyd y cyfarfodydd yn y Ganolfan Athrawon ym Mill Road. Pan gaeodd y ganolfan honno trosglwyddodd y dosbarth i Ysgol Martin Sant. A phan ddaeth yr amser i “W.J.” ymddeol, Yr Athro E. Wyn James gydiodd yn yr awenau.

Ond rhyw chwe mlynedd yn ôl penderfynodd y brifysgol ddod â'r dosbarth i ben er fod yna nifer helaeth yn mynychu'n rheolaidd ac yn talu ffi digon sylweddol. Roedd y dosbarth mor boblogaidd fel y cytunodd Wyn i barhau â'r gwaith ar gais yr aelodau.

Yr arferiad yw i'r dosbarth weithio drwy gyfrol gyfredol “Cyfansoddiadau a Beirniadaethau” y Genedlaethol. A dyma'n rhaglen arbrofol am dymor 2018 – 19. Wedi'r cyfarfod cyntaf mae'n bosib y bydd yr aelodau am newid rywfaent ar y rhaglen neu'r dyddiadau, felly cysylltwch â'r Golygydd (manyllion ar dudalen 2) os byddwch am ymuno â ni wedi'r cyfarfod cyntaf.

Hydref 11eg:	Cerddi'r Gadair - Awdl Gruffudd Owen, Caerdydd
Tachwedd 8fed:	Cerddi'r Goron - Casgliad Catrin Dafydd, Gwaelod y Garth
Rhagfyr 13eg:	Barddoniaeth- yr Englynion, Telyneg, Cywydd, Soned, Limerig ac ati
Chwefror 14eg:	Llenyddiaeth – Y Stori Fer, Ysgrif, Llen Meicro, Dyddiadur Dychmygol ac ati.
Mawrth 14eg:	Y Fedal Ryddiaith – “Llyfr Glas Nebo” Manon Steffan Ros, Tywyn
Ebrill 11eg:	Gwobr Goffa Daniel Owen – “Ysbryd yr Oes” , Mari Williams, Caerdydd

Rydym yn cynnal 6 chyfarfod y flwyddyn a hynny am 7:00 ar ail nos Iau y mis yn festri capel Tonyfelin.

Dewch i ymuno â ni—mae croeso cynnes yn eich disgwyl.

Llywelyn Bren - 2

Y mis diwethaf, gadawson ni Llywelyn Bren a'i filwyr wedi eu h amgylchynu gan ei elynion yn Ystradfellte. Roedd wedi ei gorneli ar gyrrion eithaf ei diroedd, yn wynebu marwolaeth greulon a gwarthus y bradwr, a'i ddilynwyr ffyddlonaf yn troi ato am arweiniad, gan ddisgwyl marw gyda'u harglwydd. Dyna oedd y traddodiad milwrol, ers dyddiau Homer a Fersil. Dyna'r dewrder a'r ffyddlondeb a ganmolwyd gan y beirdd hynny, a chan feirdd Cymru hefyd, o Aneirin a Thaliesin ymlaen. "Buont briw ger eu brawd maeth" meddai Peryf ap Cedifor am ei frodyr a fu farw'n ymladd wrth ochr eu brawd maeth Hywel ab Owain Gwynedd, Ac roedd y **traddodiad** hwnnw o ymladd hyd yr eithaf yn fyw ymhlith y Normaniaid hefyd: eu harwyr oedd Rolant ac Olifier, marchogion Siarlymaen, a fu farw yn Roncesvalles.

Ond dewisodd Llywelyn wneud rhywbeth hollol wahanol. Dewisodd farw dros ei bobl, er mwyn ceisio arbed eu bywydau nhw. Yn ôl croniclewyr y cyfnod, dywedodd wrth ei ddilynwyr taw fe yn unig oedd yn gyfrifol am ddechrau'r gwrthryfel, ac efe yn unig ddylai dalu'r pris am hynny. Byddai'n ildio i'r Normaniaid ar yr amod y byddant yn arbed bywydau ei ddilynwyr i gyd.

Dewisodd Llywelyn farw dros ei bobol, er mwyn ceisio arbed eu bywydau nhw.

A dyna beth a wnaeth -nid ceisio ffoi, nid ymladd hyd yr eithaf fel anifail wedi ei gornelu, ond cerdded i ganol ei elynion, yn barod i aberthu ei hun dros ei bobl. Roedd adlais o aberth yr Iesu yn ei benderfyniad, ac fe fyddai hynny wedi bod yn amlwg i bawb yn yr oes Gristnogol honno.

Hawdd dychmygu parch ac edmygedd ei bobl tuag at Llywelyn, ond mawr oedd parch ei elynion tuag ato hefyd. Er i Llywelyn a'i holl deulu gael eu cludo i Lundain, a'u carcharu yn Nhŵr Llundain, ni chafodd ei ddiwyddio, oherwydd roedd ei elynion, arglwyddi pwerus y Mers, yn dadlau ei achos gerbron y brenin. Y gobaith oedd y byddai'n cael ei ddirwyo yn hytrach na'i ladd, fel a ddigwyddodd i'w ddilynwyr.

Ond brenin gwan a gwamal oedd Edward II, ac roedd yn or-ddibynnol ar ffrindiau agos. Un ohonynt oedd yr Arglwydd Huw Despenser. Rhoddodd Edward arglwyddiaeth Morgannwg i Huw Despenser yn Nhachwedd 1317, a dyma ddechrau'r diwedd i Llywelyn. Ar ddechrau 1318 cymerodd Despenser Llywelyn o Dŵr Llundain a mynd ag ef i Gaerdydd. Yno, yn dilyn treial anheg, dienyddiwyd Llywelyn o flaen Tŵr Du y Castell – y tŵr mawr ar ochr dde'r prif borth sy'n wynebu Heol y Santes Fair.

Dioddefodd Llywelyn farwolaeth arteithiol bradwr – ei grogi nes ei fod hanner-marw, ei lusgo trwy'r strydoedd at fan ei ddiwyddiad, lle cafodd ei ddi-berfeddu tra oedd yn dal i anadlu. Wedi hynny, torrwyd ei ben i ffwrdd a chwarterwyd ei gorff. Arddangoswyd y darnau yn gyhoeddus am gyfnod cyn eu claddu yn y diwedd ym mynwent y Brodyr Llwydion gerllaw porth gogleddol tref Caerdydd.

Felly er gwaethaf ei ddewrder a'i hunan-aberth, ac er gwaethaf edmygedd ac eiriolaeth ei elynion, dioddefodd Llywelyn yr union artaith a wynebodd yn Ystradfellte ddwy flynedd yn gynharach, a hynny, mae'n bur debyg, oherwydd casineb a chreulondeb un dyn - Huw Despenser. Ond nid dyna ddiwedd hanes Llywelyn Bren o'n Cwm Ni!

Dr Elin Jones



*Llun allan o Chronica
Majora Matthew Paris, yn
dangos William de Marisco
yn cael ei dynnu at ei
ddienyddiad ym 1242.
Morleidr oedd Marisco, yn
defnyddio Ynys Wair
(Lundy) fel pencadlys.*

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



C	G	W	Y	R	D	O	G	H	G
W	L	W	N	D	N	E	R	O	
U	A	M	Y	E	L	R	Y	N	
B	S	D	U	N	R	O	W	N	
G	W	E	Y	R	D	F	B	L	
W	Y	L	D	W	P	R	R	I	
N	E	O	C	G	U	O	O	C	H
M	W	I	Y	N	F	P	W	O	
I	O	F	L	E	P	I	N	C	

Dim ond saith lliw sydd yn yr enfys,
ond mae deuddeg yn y pos yma. Allwch
chi eu gweld nhw?

DU GWYN MELYN PORFFOR

LLWYD PINC BROWN OREN

GWYRDD GLAS FIOLED COCH

Dyma enwau'r lliwiau wedi'u cymysgu. Allwch chi eu hysgrifennu'n gywir?

dwyll yngw cnip gals wrobn erno delfio mynel

Rhaglen Merched y Wawr 2018-19

Mercher, 19 Medi 2018 7.30 Tonyfelin	Noson anffurfiol a lluniaeth ysgafn. Pwyllgor yn dod â manion fwydydd I flasau.	
Nos Fawrth, 16 Hydref 7.00 Clwb Rygbi Ystrad Mynach	Noson yng ngwmni Grwp iwcelesi'r Cwm o dan arweiniad Dafydd Roberts. Ymuno â'u noson ymarfer. Sylwer ar y newid noson ag amser.	
Mercher, 21 Tachwedd 7.00 Penalltau	Priodas ei mab yng ngwlad Thai – Gwyneth Davies	
Mercher, 12 Rhagfyr 3.00 Hillcrest	Ymweliad Nadoligaidd â gardd Hillcrest, Cefn Fforest - lluniaeth	
Mercher, 16 Ionawr 2019 7.00 Penalltau	Hanes rhyddfrenio menywod - y Swffragetiaid! – Dr Elin Jones	
Mercher, 20 Chwefror 7.00 Tonyfelin	Noson yng nghwmni'r Bardd Coronog, Cyril Jones	
Mercher, 20 Mawrth 7.00 Manor Parc	Cinio dathlu ein dengmlwyddiant fel cangen. Bydd Arddangosfa fechan a gwesteion.	
Mercher, 17 Ebrill 7.30 Bethel Caerffili	Haf Weighton, artist sy'n defnyddio print, paent a phwythau, yn cyflwyno a disgrifio'i gwaith celf cain	
Mercher, 15 Mai 2.00 Nantgarw	Ymweliad â chrochendy Nantgarw, Taith tywys. Teisen a disgled.	
Mercher, 19 Mehefin 11.00 Parc Bryn Bach	Taith gerdded fer a choffi ym Mharc Bryn Bach. Cyfarfod blynyddol.	
Mercher, 17 Gorff 11.00 Caerdydd	Ymweliad ag Oriolau Celf Amgueddfa Genedlathol Cymru. Taith Tywys. Cinio yn y ddinas.	

Cyfarfod Merched y Wawr, 19^{eg} o Fedi Lansio rhaglen 2018-19

'Daw Awst, daw nos' yw'r hen air. Efallai cawn fathu dywediad cyfoes, sef 'Daw Medi, daw lansio rhaglen newydd Merched y Wawr'! Cynhaliwyd cyfarfod hwyliog nos Fercher, 19 Medi, yn festri capel Tonyfelin, Caerffili, pan gyflwynwyd y rhaglen ar gyfer 2018-19 i'r aelodau dros ddisglaidd a danteithion. Croesawyd Ceinwen Rowlands o Fangor, Is-Gadeirydd Hafal, i'n plith fel ymwelydd.

Croesawodd yr aelodau y rhaglen ar gyfer y flwyddyn hon hefyd. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar drafodaeth yn ein cyfarfod blynyddol ym mis Mai, ac fe fydd yn amrywiol o ran cynnwys a lleoliad. Mae'n amrywiol hefyd o ran amseriad y gweithgareddau. Eleni eto y byddwn y cynnal nifer o gyfarfodydd yn ystod y dydd. Felly caiff Merched y Wawr Cwm Rhymni gyfle i gwrdd yng ngolau dydd i frasgamu o gwmpas Parc Bryn Bach, neu wleda ar gyfoeth casgliadau celf yr Amgueddfa Genedlaethol – a chael cinio blasus wedyn hefyd, cofiwch.

Gan fod gyda ni nifer cynyddol o ddysgwyr hyderus yn ein cwm, nodwyd hefyd rai cyfarfodydd fydd yn arbennig o addas ar eu cyfer – a'r cyntaf o'r rhain yw'r cyfarfod nesaf, sef noson iwcelesi yng Nghlwb Rygbi Penallta, am 7.00 ar nos Fawrth, Hydref 17.

O gofio bod y gangen yn dathlu ei phenblwydd yn ddeg eleni, bydd croeso arbennig i ymwelwyr ac aelodau newydd yn ystod y flwyddyn hon. Os am fwy o fanylion, cysylltwch gydag Elin Jones ar 01443 816366/07796 796 205 neu trwy e-bost: elinphillips3@btinternet.com.

Cafwyd cyfarfod adeiladol a chadarnhaol nos Lun, 17eg o Fedi yn Ysgol Gymraeg Caerffili.


Roedd pawb yn fodlon ar ddiwyg y papur a chytunwyd bod 20 tudalen yn ddigon gyda'r gallu i gynhyrchu mwy yn ôl y galw. Roedd cynyddu'r nifer o dudalennau lliw wedi bod yn werth chweil ond byddai'n rhaid cadw llygad ar y gost ychwanegol.

Roedd gan y Trysorydd adroddiad calonogol ond nodwyd bod angen sicrhau ein bod yn atgoffa un neu ddau o'n darllenwyr bod angen talu. Roedd angen mwy o help ar gyfer dosbarthu'r papur yn fisol a chafwyd sawl cynnig o help.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o drefnu nosweithiau cymdeithasol o dan nawdd y papur bro – noson ffilm, noson gaws a gwin..... yn y gobaith y gallai hyn ddenu darllenwyr newydd wrth i ni fod yn fwy gweledol yn y gymuned. Dwedwyd y byddai'r Fenter Iaith yn hapus i drefnu'r rhain fel rhan o'u gwaith.

Llwyddwyd i gynyddu cylchrediad y papur yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond, o ystyried cymaint o blant oedd yn derbyn eu haddysg yn ein hysgolion Cymraeg, a'r nifer sydd bellach yn medru'r iaith yn y sir, teimlwyd y dylid edrych ar ffyrdd o werthu mwy eto o gopiâu. Cafwyd trafodaeth fywiog iawn am hyn a chytunodd nifer o aelodau'r pwyllgor fynd ati i siarad â'n hysgolion i ofyn iddynt hyrwyddo gwerthiant ymhlith eu teuluoedd.

Margaret Pritchard (Cwm Ni)



Collodd ein Cwm Ni aelod o un o hen deuluoedd y fro hon pan fu farw Margaret Pritchard ar Awst 30. Magwyd ei mam mewn bwthyn ar lethr y bryn uwchben hen blasdy Ystrad Fawr, safle'r ysbyty presennol. Bu hi a'i rhieni yn aelodau yng nghapel Bethania gerllaw, mam eglwys Siloh Ystrad Mynach, a sefydlwyd ym 1810. Yn ddiweddarach daethant i Siloh ei hun, a hwnnw oedd capel Margaret am y rhan fwyaf o'i bywyd.

Er taw achos Cymraeg oedd Siloh hyd y diwedd, prin oedd Cymraeg Margaret, fel llawer o'i chyfoedion, oherwydd ni ddewisodd rhieni drosglwyddo'r iaith i'w plant. Serch hynny, magwyd Margaret yn y ffydd Gristnogol yn Siloh, ac roedd ei ffydd yn gadarn trwy ei hoes, gan fynegi ei hun mewn caredigrwydd dibendraw, a sensitifrwydd arbennig tuag at eraill. Cafodd ei dewis yn flaenor gyda'i henwad – teyrnged i'w ffydlondeb i'r achos ac arwydd sicr o barch ei chyd-aelodau tuag ati.

Pan benderfynwyd cau drysau Siloh, aeth Margaret i Frynseion i addoli – ond parhaodd ei chysylltiad â chapel ei magwraeth. Daeth yn aelod o'r pwyllgor llywio a weithiodd i droi hen gapel Siloh yn Ganolfan Gymunedol – a Christnogol - a Chymraeg, a bu'n gweithio'n ddifflino er hybu hynny nes i salwch difrifol ei tharo.

Er doedd Margaret ddim yn hyderus yn ei Chymraeg, roedd yr iaith a'r diwylliant yn agos iawn at ei chalon. Daeth yn aelod o Ferched y Wawr, pan sefydlwyd cangen yma yn dilyn Eisteddfod Cwm Rhymni 1990, ac mae atgofion melys iawn gan rai o aelodau'r gangen bresennol o gwmni a chefnogaeth Margaret yn y dyddiau hynny. Mae Siân, merch Margaret, yn dysgu Cymraeg ac yn aelod ffyddlon o ddosbarth Helen Hollyman. Cydymdeimlwn â hi ac aelodau eraill y teulu yn eu colled.

Yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd

Diwrnod yn y Ddinas



Yr Hen Lyfrgell ar yr Ais yng Nghaerdydd oedd cychfan Merched y Wawr ddydd Mercher, Gorffennaf 18 a chawsom fore arbennig iawn. Daeth pawb ynghyd yn Siop Bodlon a chyfarfod â Nia, sylfaenydd a rheolwraig y fusnes. Cawsom ein tywys o amgylch y siop ganddi a chael hanesion hynod o ddiddorol am gefndir y nwyddau amrywiol ar werth.

Prif amcan Siop Bodlon yw arddangos nwyddau Cymreig o ansawdd da, ac wrth wneud hynny mae'n cynnig cyfleoedd marchnata i nifer o Gymry ifanc talentog a chreadigol sy'n ymdrechu i sefydlu eu busnes eu hun.

Hyfryd oedd gweld ystod mor eang o gynnyrch Cymreig – carthenni, llestri, bwydydd, diodydd, sebonau, canhwyllau, lluniau, cardiau, nwyddau plant..... – a'r cyfan o ansawdd gwych. Mae Siop Bodlon yn lle perffaith i wneud eich siopa Nadolig.

Nia sy'n gyfrifol am Caffi Bodlon yn Yr Eglwys Newydd ac mae ar fin cychwyn menter arall sef Cegin Bodlon ar Ffordd Yr Eglwys Newydd, yn agos i Ysgol Mynydd Bychan. Taith arall ar gyfer MYW efallai?

Wedyn cawsom awr ddiddorol arall yng nghwmni Angharad Thomas, dirprwy brif weithredwr Menter Iaith Caerdydd. Bydd y Fenter yn symud ei chanolfan i'r Hen Lyfrgell yn y dyfodol agos. Soniodd Angharad am waith y Fenter yn y brifddinas a phrofiad calonogol iawn oedd clywed am y cynnydd aruthrol mewn gweithgareddau Cymraeg yno, a'r agwedd bositif tuag at yr iaith. Bu Tafwyl yn llwyddiant ysgubol eleni eto ac roedd yn hyfryd clywed hefyd am weithgareddau llai hysbys y Fenter fel y cynllun i ddarparu gweithgareddau Cymraeg i blant mewn ardaloedd difreintiedig o Gaerdydd.



Gadawsom yr Hen Lyfrgell yn llawen o wybod bod yr iaith yn cerdded ymlaen yn hyderus yn ein prifddinas. Erbyn hynny roeddem yn barod iawn am y cinio blasus a archebwyd ym mwyty Bill's gerllaw! Cawsom ddiwrnod bendigedig.



Hafan Draenogod

Yn y wefan *All About Hedgehogs* mae sôn am *Hedgehog Street* yn y *City of Wildlife*. Os am ddod o hyd i le o'r fath does dim angen mynd yn bellach na "Alltwn" – na nid Alltwn Cwm Tawe - ond Alltwn, Caerffili.



Yno mae Russell ac Eirian Thomas wrthi'n gwarchod draenogod y gymdogaeth. Pam? Yn bennaf, am fod nifer y draenogod yn gostwng yn ddifrifol. Amcangyfrifwyd bod tua 36.5 miliwn ym Mhrydain yn yr 1950au. Erbyn 1995 roedd y rhif wedi disgyn i tua miliwn a hanner gydag ond 140,000 o'r rhain yng Nghymru. Ac mae tystiolaeth i'r rhifau ddisgyn ymhellach ers hynny.

Mae Russell ac Eirian wedi bod wrthi ers rhai misoedd bellach ac mae i fyny i tua 10 o ddraenogod yn lletya yn eu gardd eang. Er mwyn sicrhau eu diogelwch darparwyd tri "thŷ" ar eu cyfer. Ond nid aros yn eu hunfan wna'r creaduriaid crwydrol hyn. Na, mwynhau cyfleusterau rhywbeth tebyg i Wely a Brecwast neu B&B maen nhw oherwydd mae'n rhan o'u natur i grwydro. Os oes gennych ddraenogod yn eich gardd byddwch yn tybied, o bryd i'w gilydd, i chi eu colli. Ond y tebygolrwydd yw eu bod yn ymweld â drws nesa.

Felly, os am eu helpu, cewch eich annog i sicrhau fod modd iddynt deithio i mewn i erddi cyfagos. A does dim byd yn dod â chymdogion at ei gilydd yn well na thrafod hynt a helynt y lodjers hyn!

Mae Eirian wedi gosod camerâu ger cuddfannau'r draenogod ac, fel canlyniad, mae ganddi fideos diddorol sy'n dangos symudiadau'r creaduriaid wrth iddyn nhw ymladd a dringo ar ben ei gilydd yn ystod y nos. Rhyfeddwn ar ba mor gyflym y mae'r creaduriaid bach hyn yn gallu symud ac, er syndod, deallwn eu bod yn gallu nofio hefyd. Er hynny, mae rhai yn boddi wrth iddyn nhw fynd i mewn i bwl lle mae'r ochrau'n rhy llyfn iddyn nhw gael gafael i dynnu eu hunain allan.

Os am fwydo draenogod, peidiwch, da chi, rhoi llaeth neu fara iddynt. Ond maen nhw'n hoff iawn o fwyd cath a gellir prynu bwyd neilltuol ar eu cyfer megis, *Spike's Dinner*.

Roedd ceidwaid Eden Trecenydd wedi darparu'r deisen afalau - nage, nid tarten afalau ond y deisen afalau - fwyaf blasus. A chafodd ein gohebydd ei fwydo cystal â'r draenogod yn ystod ei ymweliad gan adael yn gyforiog o rawnwin, tomatos a danteithion eraill. Diolch o galon iddynt!



Os am fwy o wybodaeth ac, yn bwysicach fyth, os am warchod y creaduriaid bach hoffus hyn, ewch i'r wefan www.allaboutthedgehogs.com

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar y 14eg o Fawrth eleni bu farw'r Athro Stephen Hawking yn 76 oed. Go brin bod yr un gwyddonydd cyfoes wedi ennyn mwy o gyhoeddusrwydd trwy'r cyfryngau torfol a'r wasg na Hawking. Pam y gwyddonydd hwn? Yn sicr, mae campau gwyddonol Hawking, cosmoleg yn benodol, yn teilyngu anrhydedd; ni fu'r gymuned wyddonol ym Mhrydain a thu hwnt yn araf yn cydnabod hyn dros flynyddoedd lawer. Ond gellid dweud hynny am lawer o wyddonwyr eraill, megis Roger Penrose, cosmolegydd o fri ym Mhrifysgol Rhydychen.



Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Hawking a Penrose? Yn syml, bu un yn holliach yn gorfforol a'r llall yn bell o hynny. Yn ddios, testun rhyfeddod ac edmygedd yw bod Hawking wedi medru cynnal ei waith gwyddonol ar lefel uchel iawn o safon, tra'n dioddef, dros hanner can mlynedd, effeithiau enbyd ei salwch. Ni fu'r cyfryngau, a felly'r cyhoedd, yn araf i wneud yn fawr o'i stori.

Gellid dadlau bod amlygiad cyhoeddus Hawking wedi dechrau yn 1988 gyda chyhoeddi ei lyfr *A Brief History of Time*. Bwriad y llyfr oedd cyflwyno i leygwyr hanfodion gwyddonol y testun astrus hwn. Llwyddodd yn rhyfeddol yn hyn o beth gyda gwerthiant o filiynau o gopïau. Ond gwir achos y llwyddiant oedd i'r awdur gynnwys y sylw y byddai dilyn trywydd ei astudiaethau cosmolegol yn ein galluogi i 'nabod meddwl Duw' (*Know the mind of God*).

Ar ba sail crefyddol a diwinyddol y mentrodd Hawking i ddatgan hyn? Pwy a ŵyr? Yn nes at y gwir yw bod llwyddiant y llyfr yn deillio

o graffter y cyhoeddwy. Mae'n hen hanes bod gwerthiant llyfr gwyddoniaeth 'poblogaidd' yn gostwng yn sylweddol os oes ynddo hyd yn oed un hafaliad mathemategol ac yn codi'n sylweddol os oes cyfeiriad negyddol at grefydd.

Gyda'r cychwyn rhyfeddol hwn, gan gydnabod gwerth gwyddonol y gyfrol, does dim rhyfedd bod bywyd cyhoeddus ac enwogrwydd Hawking wedi mynd i sawl cyfeiriad, megis ffilmiau, cyfresi teledu (*The Simpsons*) a derbyniad gan Yr Arlywydd Obama.

I fod yn deg â Hawking mae ei ddatganiadau cyhoeddus am grefydd yn dangos cysondeb clodwiw, megis, Nid oes Duw, Nid oes nefoedd, Anffyddiwr wyf.

Yn rhifyn cyfredol y cyhoeddiad *Physics World*, cylchgrawn misol y Sefydliad Ffiseg (*Institute of Physics*) ceir ysgrif yn dwyn y teitl *Physicists mourn Stephen Hawking*. Nodir bod nifer o wyddonwyr wedi beirniadu Hawking am ei haerllygrwydd yn defnyddio'r term 'nabod meddwl Duw'. Bydd cofiant llawnach yn y rhifyn nesaf. Pan holwyd 130 o ffisegwyr disglair am eu dewis o'r person a gyflawnodd fwyaf yn y maes cafodd Hawking un bleidlais.

Mewn teyrnged dywedodd Martin Rees, Y Seryddwr Brenhinol, '....cafodd miliynau y profiad o estyn eu gorwelion cosmolegol trwy ei lyfrau ac yn fwy gan ei esiampl o gyrhaeddiant yn erbyn pob disgwyl....'

Pe bai Hawking wedi ennill disgleirdeb tebyg mewn, dyweder, geneteg yn hytrach na chosmoleg, o bosib ni fyddai ei fuddugoliaeth o ddawn yn erbyn adfyd wedi ennill yr un sylw gan y cyhoedd ar draws y byd..'

Dr Neville Evans

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Mae Clwb Cerdd y Cwm wedi esgor ar y pum deg seithfed tymor o'i fodolaeth.

Agorwyd y tymor newydd fis Medi'r 15fed gyda chyngerdd dan ofal ymwelydd poblogaidd i'r Clwb, Mezzo Soprano, Kate Woolveridge. Bu hi'n perfformio gyda Polly Greenwood, Soprano â Nicola Rose ar y piano.

Bnawn Sadwrn, yr 20fed o Hydref bydd Cerddorfa Siambr Gwent ynghyd ag unawdydd piano yn ein disgwyl yn neuadd Ysgol Lewis i Ferched.

Yng Nghanolfan Gristnogol Siloh fyddwn ar y **24ain o Dachwedd** i fwynhau Myfyrwyr Jazz o'r Coleg Brenhinol Drama a Cherdd.



Kate Woolveridge

Cawn hoe dros y Nadolig gan edrych ymlaen at y Triawd Piano Saesneg yn dathlu ei 27ain tymor ar **Ionawr 26ain** yn Ysgol Lewis i Ferched.

Ar y **26ain o Chwefror** Pumawd Pres fydd yn cyflwyno rhaglen o "Music for You" yn Siloh.

"Beethoven in Wales" yw teitl cyflwyniad Mary Hofman ar y fiolín a Richard Ormrod ar y piano ar **Fawrth 23ain** yn Ysgol Lewis.

Yn Siloh fyddwn ni ar **Ebrill 13eg** yn clywed *Zephyr Winds*. "The Instrument of the Devil" yw'r enw ar sesiwn ysgafn yn edrych ar deulu'r clarinét gan gynnwys sacsoffonau.

Y *Mavron String Quartet* fydd yn Siloh ar **Fai'r 11eg** a fydd yn cynnwys cerddoriaeth gan gyn-lywydd y gymdeithas, Mervyn Burtch.

Mae pob cyngerdd yn dechrau am 2:30

Mae'r Clwb yn cynnig adloniant cerddorol o'r radd uchaf. Daw cantorion o Gwmni Opera Cymru a cherddorion o'r Coleg Cerdd a Drama Cenedlaethol yn y brifddinas. Gwendid y Clwb yw bod y gynulleidfa yn lleihau ac yn heneiddio. Yr hyn sydd ei angen yw i bobol droi i fyny a chefnogi'r gweithgareddau oherwydd byddai'n bechod mawr petai cyngerddau o'r fath safon yn dod i ben.

Rywsut mae'r Clwb yn denu grantiau o sawl cyfeiriad ac felly yn gallu cynnig yr arlwy am bris rhesymol: Tâl mynediad yw £8 a £7.50 i bensiynwyr neu gellir codi Tocyn Tymor ar gyfer yr 8 cyngerdd mewn blwyddyn am £50. Cynhelir y digwyddiadau yn Ystrad Mynach yn Ysgol Lewis i Ferched neu Ganolfan Gristnogol Siloh yn Stryd Oakfield fel y nodir.




TRWYDDEDI CYMRAEG

Sarhad ar ein cenedl yw bod yn rhaid i ni bellach gario trwydded yrru â bathodyn Jac yr Undeb arni. Gwrthododd llywodraeth David Cameron bob cais i ddarparu fersiwn yn arddangos y Ddraig Goch ar ein cyfer ni'r Cymry. Mae pob gyrrwr newydd neu'r sawl sydd yn cyrraedd y saith deg ac yn gorfod gwneud cais am drwydded newydd yn gorfod plygu i'r drefn awtocratig hon.

Ond cynhyrchodd gwasg Y Lolfa, am bris rhesymol, sticeri a ellir eu defnyddio i orchuddio'r sen hon ar ein gwlad. Mae gan olygydd "Cwmni" rai yn ei feddiant. Os am unioni'r cam, cysylltwch â ni neu â Gwasg y Lolfa.

Colofn Dafydd Islwyn

Y dydd o'r blaen deuthum ar draws "Y Gwin a Cherddi Eraill" gan I. D. Hooson. Cyhoeddwyd y gyfrol ym mis Tachwedd 1948. "Detholiad a geir ynddi o'm caneuon yn ystod y deng mlynedd diwethaf," meddai'r awdur ym mis Hydref. Bu farw'r bardd nos Sul y 18fed o Hydref 1948. Yn 2012 cyhoeddwyd gan Wasg Gee "Y Casgliad Cyflawn" o



gerddi I. D. Hooson, y mae swyn ei weledigaeth yn dod i afael ynof. Mae'r Ail Ryfel Byd yn gysgod dros rai o'r cerddi yn y gyfrol. Mae'r gerdd "Rhyfel" yn un gref. Wrth ddarllen Y Casgliad Cyflawn, cywirais fy hun. I. D. Hooson ydy awdur "Cwningod": "Dwy gwningen fechan Yn eistedd yn y llwyn" ac nid T. Gwynn Jones!

Ym mis Chwefror 1958 y cyhoeddwyd "Y Glöwr a Cherddi Eraill", Llyfrau'r Dryw, Llandybie. Dyma unig gyfrol o waith Gwilym R. Tilsley, y Prifardd Tilsli. Yng Nghaerffili yn 1950 croesawyd ei gerdd foliant i'r Glöwr fel yr awdl symlaf a wobrwyrwyd ers blynnyddoedd yn y Genedlaethol. Yn y Genedlaethol Ynys Môn yn 1957 enillodd ei ail Gadair ac mae "Cwm Carnedd" yn yr un traddodiad o ganu syml a dealladwy. Esgyll clo ei gyfres o bedwar englyn i Gŵyl Ddewi ydy,


Rhodddwn ein llafur iddi
A'n holl sêl er ei lles hi.

Mabwysiadaf y cwpld i dorchu fy llewys dros fy ngwlad a'i Phethe. Cwpld gan brifardd bro fy mebyd a fy mro fabwysiedig.

Yn Awst 1968 cynhaliwyd Y Genedlaethol yn Y Barri a'r Fro. Testun yr englyn oedd "Map" a'r enillydd oedd Tom Bowen Jones, Trefor, Caernarfon, Gwynedd. Rhestrir yr englyn ymhlith dwsin englyn gorau Y Genedlaethol yn y ganrif ddiwethaf.

Map
Yn hwn o hyd chwilio a wnafl - ar fy hynt
Am ryw fan a geisiaf;
Ond ynddo chwilio ni chaf
Yn niwl y siwrne olaf.

Yng Nghaerdydd y cynhaliwyd y Genedlaethol yn 1978 a hynny yn ardal Pentwyn. Testun yr englyn oedd "Clawdd Offa" a beirniadodd Gerallt mai englyn Dic Jones oedd y gorau. Rhestrir yr englyn hwn hefyd ymhlith y dwsin gorau.



Clawdd Offa

Nid wal sy'n rhannu dwy wlad, - na dwrn dur
Rhyw hen deyrn anynad
Nid rhith o glawdd trothwy gwlad,
Nid tyweirch ond dyhead.

Ddydd Gŵyl Ddewi 1988 cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg Newydd. Bu ysgolheigion ieithyddol, crefyddol a llenyddol wrth y gwaith am dros chwarter canrif. Ymfalchias yn y ffaith i'r Athro Ddoctor Gwilym H. Jones (1930 – 2018) fod wrth y gwaith. Bu ef yn weinidog yr efengyl ar gapel fy mebyd, Penygarnedd o 1956 hyd 1961 cyn troi i fydd ysgolheictod.

Enillydd yr englyn yn Y Genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr 1998 oedd Trefor Jones, Llangwm, Corwen, Conwy. Y testun oedd "Bwlch",

Bwlch

I'r fan lle bu'r ailgyfannu – â thrwch
O'r berth ddrain yfory
Daw yr anllad ddafad ddu
Â'i haen eilwaith a'i chwalu.


Profiad ffermwr yn amlwg yn yr englyn gan y ffermwr diwylliedig olaf i ennill yr englyn yn Y Genedlaethol. Hanner canrif ynghynt hen daid y canwr Rhys Meirion oedd awdur yr englyn buddugol "Y Ci Defaid". Roedd gan Thomas Richards, Llanfrothen gysylltiad agos â ffermio hefyd, roedd yn adnabyddus fel porthmon. Mae ei englyn buddugol ar go' gwlad,

Rhwydd gamwr hawdd ei gymell – i'r mynydd
A'r mannau anghysbell;
Hel a didol diadell
Yw camp hwn yn y cwm pell.

Cyfarchion i chi i gyd! Y mis diwethaf dechreuon ni edrych ar idiomau Cymraeg - y pethau bach yna sydd yn rhoi lliw a diddordeb i'r iaith (ac yn rhoi marciau ychwanegol i chi mewn arholiad efallai!) Y mis yma, rwy wedi dewis idiomau sy'n cyfeirio at anifeiliaid ac adar.

cyfarchion : greetings lliw a diddordeb : colour and interest
marciau ychwanegol : extra marks arholiad : exam

- a) fel bola buwch ddu : *like a black cow's stomach*
- b) ci a gerddo a gaiff : *a dog who walks will get something*
- c) yn ara' deg mae dal iâr: *you catch a chicken slowly*
- ch) amlwg llaid ar farch gwyn : *mud is obvious on a white stallion*
- d) gwyn y gwêl y frân ei chyw : *to a crow, its chick appears white*
- dd) un wennol ni wna wanwyn : *one swallow does not make a spring*
- e) prynu cath mewn cwd : *buying a cat in a bag*
- f) ar gefn ei geffyl / ei cheffyl : *on his/her (high) horse*



Nawr allwch chi ddewis y diffiniad Cymraeg ar gyfer pob idiom?
 Atebion ar dudalen 16.

- 1. mae rhieni yn meddwl bod eu plant yn berffaith
- 2. rhaid gwneud ymdrech i llwyddo
- 3. rhoi arian am rywbeth heb wybod beth yw e
- 4. yn dywyll iawn, iawn
- 5. rhaid cael amynedd weithiau
- 6. mae angen mw y o dystiolaeth nag un awgrym
- 7. yn meddwl ei fod/bod yn bwysig iawn, yn edrych i lawr ar bawb
- 8. mae pawb yn sylwi pan fydd rhywun mewn safle uchel yn gwneud rhywbeth o'i le


ymdrech : effort llwyddo : succeed amynedd : patience mw y o dystiolaeth : more evidence
awgrym: suggestion safle : position gwneud rhywbeth o'i le : do something wrong

a)..... b)..... c)..... ch)..... d)..... dd)..... e)..... f).....

Dyma'r atebion i'r posau ar dudalen 7. Sawl un gawsoch chi'n iawn?

dwyll = llwyd yngw = gwyn cnip = pinc gals = glas
 wrobn = brown erno = oren delfio = fioled mynel = melyn





CRONFA
GENEDLAETHOL WILLIAM
SALESBURY

**Mynnwch ddysg
yn eich iaith**


Cymorth ariannol i fyfyrwyr y
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Apêl Genedlaethol Newydd Canmlwyddiant Geni Merêd

Pwrpas y Gronfa

Gweledigaeth y diweddar Dr Meredydd Evans – neu Merêd i'w gyd-Gymry – oedd y gronfa, i alluogi pobol Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol ac ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael i'w hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers i Merêd sefydlu Ymddiriedolaeth William Salesbury yn 2012, mae'r gronfa wedi darparu ysgoloriaethau gwerth £5,000 yr un i chwech o Gymry ifanc.



Adnabyddir y bonheddw'r a'r ysgolhaig William Salesbury (c.1520-84) fel 'y Cymro modern cyntaf a 'sylfaenydd mudiad yr iaith Gymraeg'. Lluniodd y geiriadur Cymraeg printiedig cyntaf, cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg a cheisio deffro'i gyd-Gymry i her technoleg newydd ei oes.



"Mae angen codi £10k y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i wireddu gweledigaeth Merêd"

Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Cadeirydd

Apêl Newydd

Er mwyn cefnogi myfyrwyr y dyfodol yn yr un modd, rhaid chwyddo'r coffrau a chodi o leiaf £10,000 y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Ymunwch â ni heddiw yn yr ymdrech! Gallwch wneud mewn sawl ffordd:

- rhoi swm o arian trwy siec, cerdyn, taliad ar-lein neu orchymyn banc (ffurflen gyfrannu drosodd)
- gorchymyn ad-daliad o'ch treth lle bo'n bosib (Rhodd Gymorth, drosodd)
- trefnu gweithgareddau i godi arian
- gadael rhodd yn eich ewyllys i'r Gronfa, fel y gwnaeth Merêd.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Gronfa:
d/o y Coleg Cymraeg Cenedlaethol,
y Llwyfan, Caerfyrddin, SA31 3EP
Ebost: ysgrifennydd@cronfasalesbury.org
Gwefan: cronfasalesbury.org/cyfrannu

Enillwyr Blaenorol:



Heledd



Teleri



Emily



Megan



Nest



Elen

Yr atebion i'r cwestiynau yng ngholofn y dysgwyr ar dudalen 15

a) 4 b) 2 c) 5 ch) 8 d) 1 dd) 6 e) 3 f) 7

Canolfan y Glowyr



Yn ystod cyfarfod blynyddol Canolfan y Glowyr cyflwynwyd diffibriliwr gan Gymdeithas Tommy Cooper. Tudor Jones oedd eu cynrychiolydd.

Codwyd yr arian i brynu'r peiriant mewn cyngerdd mawreddog yng Nghanolfan y Vanguard a bu Mair a John Wade yn y cyfarfod.

Wrth dderbyn y rhodd gan David Fortey (aelod o Only Men Aloud ac ymddiriedolwr y Vanguard), eglurodd Katherine Hughes (Ysgrifennydd y Glowyr) fod y Ganolfan wedi methu cael grant i brynu un felly roedd y rhodd yn wych. Ymatebodd David Fortey fod hyn yn gwneud y cyflwyniad hyd yn oed

yn fwy boddhaol.

Mae Canolfan y Glowyr yn awyddus i ehangu gweithgareddau Cymraeg felly os oes syniadau gyda chi gallwch gysylltu drwy ffonio 02921674242 neu ebostio secretary@caerphillyminerscentre.org.uk

Yn y llun mae Wayne David (AS a Chadeirydd y Glowyr), David Fortey a Katherine Hughes.

Hanes Cwm Ni

4/10/18 Iestyn ap Rhobert
Hanes y Gymraeg yng Ngwent

8/11/18 Dr Neville Evans
Gwyddonwyr Cymru

10/1/19 Yr Athro Keith Bush
Cyfraith ac Anrhefn yng
Ngorllewin Gwylt Cymru - Hanes
Cythryblus Pwll Esgair-Y-Mwyn

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL

Canolfan Siloh Ystrad Mynach



BYW Y BEIBL

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb

10.30 – 11.30 ar fore Llundun

1 Hydref - Awdurdod Iesu (Luc 6: 1 – 10)

5 Tachwedd - Pŵer Iesu (Luc 6: 12 - 19)

3 Rhagfyr Bendithion a Mellthion (Luc 6:20 - 26)

7 Ionawr – Dod yn debyg i'r Athro (Luc 6: 27 – 42)

Astudiaeth Lluniaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk /

info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

Bob Nos Fawrth 7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

Miri Meithrin

(oedran 0-5)

Tachwedd 2 2018
10:30-12:00

Neuadd Cymunedol St David's, Rhymni

Mynediad £1



Dawnsio gyda Heini Lliwio
Amser stori Chwarae medal

Bygi Heini




Parc Morgan Jones Caerffili (Cyfarfod ger caffi Yr Hen lyfrgell)

Dydd Gwener - 10:00am

Dechrau - 5 / 10 / 18

£15

am 4 wythnos

Cwrs ffitrwydd gyda bygi i rhieni
gyda'r hyfforddwraig personol
Jacqui Spiller.

Agored i bawb o bob lefel ffitrwydd.

PARTI CALAN GAEAF

I BLANT CYNRADD

CERFIO PŴMPEN GWISG FFANSI
CREFFT BWYD PARTI
GEMAU A MŴY

DYDD MERCHER
HYDREF 31
1:00- 3:00PM

£3

@ NEUADD CWM
RHYMNI
SAFLE GELLI HAF

RHAID I RHENI AROS
RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW

Darlun yr Hydref

Gweithgaredd drwy'r Gymraeg

Gweithgaredd celf am ddim i'r teulu
cyfan, ymunwch a ni i greu waith
celf awyr agored enfawr.

Dydd Mawrth Hydref 30 Parc Waunfawr, Crosskeys



10:30-3:00

Noson blasu Gwin a Chaws

Nos Fercher Hydref 10 am 7:30yh

Canolfan Gymunedol Nazareth Abertridwr

£10

Rhaid archebu o flaen llaw

Noson yng nghwmni yr arbenigwraig
gwin Lowri Russell. Cyfle i flasgu a
dysgu mwy am winoedd amrywiol o
Gymru a'r byd gyda ychydig o gaws
hefyd!

Gydag adloniant gan Carys



Gweithdy Argraffu Lino



Dydd Sadwrn Tachwedd 10fed

10:00 - 15:00

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach.

£15

Dewch i ddysgu y sgil o argraffu lino o dan arweiniad yr
arlunydd Aron Rhys. Bydd angen darparu bwyd eich
hunain ar gyfer cinio.

Rhaid bwcio cyn Hydref 26

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili
2:00 o'r gloch

Tachwedd 5ed – Y Dŵch
gan Jon Gower
BYDD JON GOWER YN YMUNO Â NI

Rhagfyr 3ydd – Hen Bethau
Anghofiedig gan Mihangel Morgan

Ionawr 7fed – Digon i'r Diwrnod
gan Geraint Evans

Chwefror 4ydd – Fel Aderyn
gan Manon Steffan Ros

penneyje961@gmail.com
Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa: Dydd Gwener

12^{fed} o Hydref

**“Arwyr Cymru”
gan Jon Gower**

2 o'r gloch

Llyfrgell Caerffili

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Merched y Wawr Cwm Rhymni

**Nos Fawrth, 16 Hydref
7.00 o'r gloch**

cawn ein difyrru gan grŵp
Iwcelesi'r Cwm o dan arweiniad
Dafydd Roberts



Clwb Rygbi Ystrad Mynach

*Ymunwn â'u noson ymarfer a
chawn gyd-ganu a chyd-fwynhau*

Am fwy o fanylion -
gaynorw555@gmail.com.

**S'A'D'W'R'N
S'I'A'R'A'D**

Hydref 27ain

10:00-12:00

Caffi Ffynnon, Argoed

Boreau Coffi


Mae boreau coffi yn cael eu cynnal yn wythnosol
mewn lleoliadau gwahanol ar draws Sir Caerffili.

Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas Dydd Llun (10:30-11:30)

Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili Dydd Mawrth (10:00-11:00)

Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon Dydd Iau (10:30-11:30)

Bore Coffi Capel DanyGraig, Risca Dydd Iau (10:30-11:30)



Bragdy yng Nghalon y Cymoedd



Mae'r teulu Jones wedi bod yn ffermio yng nghalon y Rhondda ers cenedlaethau. A theulu o Gymry Cymraeg ei iaith ydyn nhw. Gydol yr amser buont wrthi'n darparu cynnyrch o'r radd uchaf. Cwrw Cwm Rhondda yw'r cam diweddaraf yn nhaith y teulu. Y bwriad fu cynhyrchu cwrw sy'n llawn blas a'i wreiddiau yn gadarn yn harddwch garw'r amgylchedd lle y caiff ei fragu.

Y fferm yw Fferm y Fforch a saif yn falch uwchben tref Treorci ym mlaenau'r Rhondda Fawr. Yn sefyll dros 1500 troedfedd, mynyddoedd fferm weithiol y teulu Jones yw tarddiad y dŵr a gyfunwyd â'r barlys a'r hopys i gynhyrchu cwrw â blas unigryw. Mae'r ansawdd yn sefyll allan ym marchnad orlawn y cwrw a gaiff ei gynhyrchu'r dyddiau yma.



www.cwmrhonddaales.co.uk Tel: 01443 777491

Fforch Farm, Treorchy, RCT, CF42 6TF

